# Busnes 90 Diwrnod

Mae'r cyfrif cynilo hwn wedi cael ei gynllunio'n benodol ar gyfer cwsmeriaid busnes dros 18 oed sy'n chwilio am le i adneuo arian ac sy'n gallu rhoi cyfnod rhybudd o 90 diwrnod cyn bod angen mynediad i'w harian arnynt. Telir llog yn fisol ar ddiwrnod olaf y mis a gellir ei dalu i mewn i'r cyfrif neu'i drosglwyddo i gyfrif arall yn Swansea Building Society neu i gyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu arall yn y DU a ddelir gan ddeiliad / deiliaid y cyfrif. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr newydd sy'n byw yng Nghymru neu aelodau presennol (sy'n byw yn y Deyrnas Unedig) y mae ein cynhyrchion cynilo ar gael. **Nid yw'r cyfrif hwn bellach yn agored i gymwysiadau cyfrif newydd.**

SWANSEA BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923
www.swansea-bs.co.uk

## Blwch Crynodeb – Gwybodaeth Allweddol am y Cynnyrch:

| | |
|---|---|
| Enw'r Cyfrif | Busnes 90 Diwrnod |
| Beth yw'r gyfradd llog? | • 3.75% GROS/ 3.82% CFG (Amrywiol) – 01.12.2024<br>• Telir llog yn fisol ar ddiwrnod olaf y mis a gellir ei dalu i mewn i'r cyfrif neu'i drosglwyddo i gyfrif arall a ddelir gennych chi gyda'r Gymdeithas neu i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu arall.<br>• Telir llog yn gros heb dynnu treth.<br>• Ystyr AER yw Cyfradd Gyfatebol Flynyddol (Annual Equivalent Rate) ac mae'n darlunio beth fyddai'r gyfradd llog pe bai llog yn cael ei dalu a'i ychwanegu bob blwyddyn.<br>• Nodwch os gwelwch yn dda fod y driniaeth dreth a'r gyfradd llog sy'n daladwy'n dibynnu ar amgylchiadau unigol pob cwsmer, a gallant newid yn y dyfodol.<br>• Bydd y gyfradd llog ar gyfer y cyfrif hwn yn cael ei harddangos ar ein gwefan ar www.swansea-bs.co.uk er mwyn i gwsmeriaid gael mynediad a monitro o bryd i'w gilydd yn ôl y galw. |
| A all Swansea Building Society newid y gyfradd llog? | • Gall – mae cyfraddau llog yn amrywiol sy'n golygu y gall y gyfradd llog fynd i fyny ac i lawr, a gellir ei hamnewid ar unrhyw adeg.<br>• Byddwn ni'n rhoi 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig drwy'r post i chi am unrhyw ddarpar newid yn ein cyfraddau llog. Cânt eu hysbysu ar ein gwefan hefyd, neu gallwch ymweld ag unrhyw un o'n swyddfeydd cangen neu eu ffonio: manylion ar gefn y daflen hon. Gellir cael manylion cyfraddau llog cyfrifon cynilo eraill Swansea Building Society yn ein taflen 'Detholiad o Gyfrifon Cynilo' sydd ar gael drwy ymweld ag un o'n swyddfeydd cangen, drwy eu ffonio neu ar lein ar www.swansea-bs.co.uk.<br>• Er mwyn deall pam y gallai cyfraddau gael eu gostwng, cyfeiriwch os gwelwch yn dda at ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo. |
| Beth fyddai'r amcangyfrif o falans ar ôl 12 mis? | • Balans arfaethedig = £1,038.15 (Mae'r ffigwr hwn i bwrpasau darlunio'n unig, nid yw'n ystyried amgylchiadau unigol y cwsmer, ac yn seiliedig ar adnau o £1,000 a dim adneuon ychwanegol, na chodi arian na newid i'r gyfradd llog yn ystod y cyfnod 12 mis.) |
| Sut ydw i'n agor a rheoli fy nghyfrif? | • I agor cyfrif, rhaid bod y busnes wedi'i leoli yng Nghymru. Galwch yn un o'n canghennau neu llenwch ffurflen gais a'i phostio atom ynghyd â siec yn daladwy i '(enw eich busnes)'. I gael mwy o fanylion am ein proses Adnabod, gweler ein Taflen **Profi eich Hunaniaeth** sydd ar gael o swyddfeydd cangen neu ar lein ar **www.swansea-bs.co.uk**.<br>• Lleiafswm y buddsoddiad yw £1. Uchafswm y balans y gellir ei ddal ar draws yr holl gyfrifon a ddelir gyda'r Gymdeithas yw £1m*, neu £500k os oedd y cwsmer wedi agor cyfrif gyda'r Gymdeithas am y tro cyntaf ar neu ar ôl 01.03.23. *Sylwer, pan fydd gan gwsmer(iaid) presennol a agorodd gyfrif ar neu cyn 28.02.23 falans ar draws cyfrifon o fwy na £500k, ni fyddant yn cael adneuo arian pellach os yw eu balansau cyfun yn fwy na'r symiau hyn.<br>• Gellir adneuo arian â siec, archeb sefydlog, trosglwyddiad banc electronig, trosglwyddiad o gyfrif arall a ddelir gan y Gymdeithas (yn unol â Thelerau ac Amodau'r cyfrif hwnnw) neu arian parod (cyfyngir adneuon arian parod i £3,000 fesul cwsmer fesul dydd).<br>• Gallwch reoli eich cyfrif yn y gangen, dros e-bost, drwy'r post neu drwy neges ddiogel ar lein (yn amodol ar feini prawf cymhwysedd Cyfrif Swansea Online, ar gael pan gliciwch chi 'Cofrestru Nawr' |
| Ydw i'n gallu codi arian? | • Gellir ond codi arian ar ddiwedd cyfnod o 90 dydd ar ôl i ni dderbyn eich hysbysiad ffurfiol i'r Gymdeithas i godi arian. Rhaid i'ch hysbysiad nodi'r swm i gael ei dynnu allan a gellir gwneud hyn drwy ymweld â ni mewn cangen. Fel arall, gallwch anfon eich cyfarwyddyd ysgrifenedig wedi'i lofnodi atom drwy'r post, dros e-bost neu drwy ein gwasanaeth ar lein Swansea Online gan ddefnyddio'r gwasanaeth negeseuo diogel.<br>• Lleiafswm yr arian y gellir ei godi yw £1 (neu lai os ydych chi'n cau'r cyfrif). Y balans isaf y gellir ei ddal yn y cyfrif hwn yw £1.<br>• Uchafswm yr arian y gellir ei godi fesul cwsmer mewn diwrnod yw £1,000. |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth Ychwanegol | • Ar gyfer Telerau ac Amodau Cyffredinol sy'n berthnasol i'r cyfrif hwn, gweler "Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo", sydd ar gael o'n canghennau neu ar lein yma.<br>• Mae'r Gymdeithas yn rhan o Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Gellir gweld manylion y cynllun a phwy a warchodir ganddo ar www.fscs.org.uk.<br>• Fe all taliadau a chostau gwasanaeth gael eu gosod ar eich cyfrif. Amlinellir y rhain yn ein Taliadau Cynilwyr.<br>• Dan rai amodau gallwn wrthod cyfarwyddyd i weithredu cyfrif. Amlinellir yr amodau hyn yn ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer gweithredu Cyfrifon Cynilo. |
| Telerau ac Amodau Penodol ar gyfer y Cyfrif Busnes 90 Diwrnod | **1. Agor cyfrifon a Therfynau Buddsoddi:**<br>Nid yw'r cyfrif hwn ar agor i geisiadau newydd mwyach. Caniateir uchafswm o 4 llofnodwr. Lleiafswm y buddsoddiad yw £1. Uchafswm y balans y gellir ei ddal ar draws yr holl gyfrifon a ddelir gyda'r Gymdeithas yw £1m*, neu £500k os oedd y cwsmer wedi agor cyfrif gyda'r Gymdeithas am y tro cyntaf ar neu ar ôl 01.03.23. *Sylwer, pan fydd gan gwsmer(iaid) presennol a agorodd gyfrif ar neu cyn 28.02.23 falans ar draws cyfrifon o fwy na £500k, ni fyddant yn cael adneuo arian pellach os yw eu balansau cyfun yn fwy na'r symiau hyn.<br><br>**2. Buddsoddi pellach:**<br>Gallwch ychwanegu at eich cynilon ar unrhyw adeg, drwy alw yn eich cangen leol â'ch adnau. Os yw'n fwy cyfleus, gallwch bostio'r adnau, gwneud taliad drwy drosglwyddiad banc electronig neu gynilo ag archeb sefydlog o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a leolir yn y DU. *Sylwer, pan fydd gan gwsmer(iaid) presennol a agorodd gyfrif ar neu cyn 28.02.23 falans ar draws cyfrifon o fwy na £500k, ni fyddant yn cael adneuo arian pellach os yw eu balansau cyfun yn fwy na'r symiau hyn.<br><br>**3. Codi arian:**<br>Gallwch godi arian o'ch cyfri drwy roi 90 diwrnod o rybudd, yn unol â chyfyngiadau'r Gymdeithas. Ceir manylion am gyfyngiadau codi arian parod a sieciau yn ein canghennau ac ar ein gwefan.<br><br>**4. Llog:**<br>Mae'r llog yn amrywio ac yn cael ei gyfrifo'n ddyddiol ar y balans a geir yn y cyfrif, a daw'n ddyledus i'w dalu ar ddiwrnod gwaith olaf y mis calendr; gellir ei dalu i'r cyfrif neu'i drosglwyddo i gyfrif arall yn Swansea Building Society neu i gyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu arall yn y DU a ddelir gan ddeiliad / deiliaid y cyfrif. Pan fydd cyfanswm y llog sydd i'w dalu'n llai na £5 ac mae angen ei dalu allan o'r cyfrif, bydd hwn yn cario drosodd hyd at ddiwrnod gwaith olaf y mis nesaf ar gyfer ei dalu hyd nes bod y swm i'w dalu'n cyrraedd £5 neu fwy. Anfonir datganiadau ar 31 Rhagfyr yn flynyddol. Rhaid i gwmni cyfreithwyr dystio dros ei gleientiaid ar gyfer y llog dan delerau Rheolau Cyfrifon Cyfreithwyr neu'r Rheoliadau Gwasanaethau Ariannol (Arian Cleient).<br><br>**5. Hawliau Aelodaeth:**<br>Nid yw'r cyfrif hwn yn gyfrif cyfranddaliadau ac felly ni fydd gennych unrhyw hawliau aelodaeth o'r Gymdeithas yn Swansea Building Society (e.e. yr hawl i bleidleisio).<br><br>**6. Telerau ac Amodau:**<br>Mae'r Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol hyn yn berthnasol i'r cyfrif hwn yn ychwanegol at ein Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Cyfrifon Cynilo. Pan fydd unrhyw anghysondeb rhwng y Telerau ac Amodau Cyffredinol ar gyfer Cyfrifon Cynilo a'r Telerau ac Amodau Cynnyrch, y Telerau ac Amodau Cynnyrch penodol fydd yn berthnasol. |

**Mae'r wybodaeth a ddarperir yn fersiwn gryno o nodweddion allweddol y cyfrif cynilo, ac ni fwriedir iddynt fod yn lle darllen y telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r cyfrif.**


SWANSEA BUILDING SOCIETY
Sefydlwyd 1923
www.swansea-bs.co.uk

**Caerfyrddin**
13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AQ
01267 611950 | carmarthen@swansea-bs.co.uk

**Y Bont-faen**
75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF
01446 506000 | cowbridge@swansea-bs.co.uk

**Y Mwmbwls**
496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX
01792 739200 | mumbles@swansea-bs.co.uk

**Abertawe**
1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH
01792 739100 | swansea@swansea-bs.co.uk



Awdurdodir Swansea Building Society gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol: 206066

fscs Protected